Arsyllfa **Wledig** Cymru
Wales **Rural** Observatory

CANFYDDIADAU ALLWEDDOL: PAPUR 2

Golwg gyffredinol ar fywyd yng Nghymru Wledig

Mae'r adroddiad hwn yn cynnig golwg gyffredinol ar fywyd yng Nghymru Wledig. Mae'n tynnu ar arolwg o 4023 o aelwydydd, sy'n ymgorffori dros 9900 o unigolion, ac a gynhaliwyd yng Ngwanwyn 2004. Mae'r adroddiad yn archwilio poblogaeth ac ymfudiad, tai, lles cymunedol ac allgáu cymdeithasol, addysg a chyflogaeth, gwasanaethau ac agweddau tuag at fyw yng Nghymru wledig.

Mae'r adroddiad yn cyflwyno'r canfyddiadau allweddol ar gyfer Cymru wledig yn ei chrynswth. Yn ogystal, mae'n archwilio amrywiaethau yn ôl daearyddiaeth, gwledigrwydd, oedran, cenedl, incwm, dosbarth, ethnigrwydd, yr Iaith Gymraeg, daliadaeth aelwydydd a hyd cyfnod preswyl.

Dyma'r canfyddiadau allweddol:

- Mae sefydlogrwydd a newid ill dau yn nodweddion o boblogaeth Cymru wledig. Mae chwarter o'r ymatebwyr wedi byw yn eu cartref presennol am o leiaf ugain mlynedd; symudodd 17% i'w cartref yn y ddwy flynedd diwethaf.

- Mae hanner y bobl sy'n byw yng Nghymru wledig yn diffinio'u hunain fel 'Cymry'. Llai na hanner o'r rheiny sy'n diffinio'u hunain fel Cymry sy'n siarad Cymraeg yn rhugl neu'n eithaf da.

- Mae pedwar deg dau y cant o'r ymatebwyr yn ystyried bod y 'mwyafrif o bobl' yn eu hardal yn wynebu problemau o ran tai fforddiadwy. Fodd bynnag, mae llai nag un o bob pump o'r bobl sy'n dymuno symud yn dweud bob diffyg tai fforddiadwy yn rhwystr i symud.

- Mae'r canlyniadau yn awgrymu lefel gymharol isel o fywyd cymunedol cyfunol yng Nghymru wledig, ond lefel llawer uwch o ymwneud teuluoedd yng ngweithgareddau dinesig ehangach.

- Mae gan bron i hanner y teuluoedd yng Nghymru wledig o leiaf un person sydd ag anawsterau cael mynediad i wasanaethau allweddol. Incwm yw'r ffactor unigol pwysicaf sy'n dylanwadu ar gael mynediad i wasanaethau.

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by Welsh Assembly Government

Cardiff University
Prifysgol Caerdydd

Prifysgol Cymru Aberystwyth
1872 The University of Wales

Medi 2004

- Caiff cyflogaeth yng Nghymru wledig ei nodweddu gan gyfran uchel o waith rhan amser (19%), hunangyflogaeth (18%) a dal mwy nag un swydd (11%).

- Er bod llawer o'r ymatebwyr yn hapus yn byw yng Nghymru wledig, mae 60% yn cyfeirio at faterion sydd wedi achosi gwrthdaro yn eu cymdogaethau. Mae'r mwyafrif o'r materion hyn yn gysylltiedig â chynllunio a datblygu.

CANFYDDIADAU ALLWEDDOL

Poblogaeth ac ymfudiad

Mae gan Gymru Wledig nifer fawr o deuluoedd bychain. Mae dros hanner o'r holl deuluoedd yn cynnwys dau neu lai o bobl. Mae teuluoedd un person yn fwy tebygol o fod mewn trefi, gyda phreswylydd o oedran ymddeol gydag incwm teuluol sy'n llai na £10,000.

Mae gan chwe deg y cant o deuluoedd aelodau o'u teulu yn byw o fewn 10 milltir. Mae hyn yn dangos pwysigrwydd parhaus carennydd i fywyd lleol. Mae'r rhwydweithiau teuluol yn ymddangos 'agosaf' yn Sir Gaerfyrddin a Sir y Fflint.

Mae chwarter o'r ymatebwyr yn byw yn eu cartref presennol ers dros 20 mlynedd, gan awgrymu graddfa uchel o sefydlogrwydd ymysg y boblogaeth wledig. Mae'r sefydlogrwydd hwn i'w weld amlycaf ymysg y rheiny sy'n 65 oed ac yn hyn, siaradwyr Cymraeg a'r rheiny sy'n diffinio'u hunain fel 'Cymry'.

Fodd bynnag, ceir tystiolaeth am newid sylweddol hefyd. Mae dau ar bymtheg y cant o'r ymatebwyr wedi byw yn eu cartref am lai na dwy flynedd. Roedd rhywun wedi symud allan o bron i chwarter o'r teuluoedd yn y pum mlynedd diwethaf. O'r ymadawyr hynny, arhosodd hanner ohonynt yng Nghymru wledig, ymadawodd traean ohonynt â Chymru yn gyfan gwbl, ac mae bron i bumed ran wedi ymadael â Chymru wledig ac yna dychwelyd.

Mae cymhellion pobl dros symud yn amrywio'n helaeth. Cyflogaeth yw'r cymhelliant mwyaf cyffredin: symudodd 17% o'r ymatebwyr i'w cartref presennol er mwyn iddynt hwy neu eu partner gael gwaith; aeth chwarter o'r rhai a ymadawodd er mwyn dod o hyd i waith.

Mae hanner y rheiny sy'n byw yng Nghymru wledig yn diffinio'u hunain fel 'Cymry'. Yr ymatebwyr ieuengach sy'n fwyaf tebygol o ddiffinio'u hunain fel 'Cymry'. Mae 'bröydd' traddodiadol Cymru wledig, yn enwedig Sir Gaerfyrddin a Gwynedd yn parhau â chynrychiolaeth gryfach o'r rheiny sy'n ystyried mai 'Cymreig' yw eu hethnigrwydd.

Mae un o bob pump aelod o deuluoedd yn siarad Cymraeg yn rhugl. Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn amrywio'n helaeth ar draws Cymru wledig: mae ugain gwaith mwy o bobl yn siarad yr iaith yng Ngwynedd nag yn Sir Fynwy. Nid oes cydberthynas glir rhwng ymdeimlad o hunaniaeth Gymreig a gallu o ran yr iaith Gymraeg. Roedd llai na hanner o'r rheiny sy'n diffinio'u hunain yn Gymry yn siarad Cymraeg yn rhugl neu'n eithaf da.

Tai

Mae stoc tai Cymru wledig yn bennaf ym meddiant perchnogion tai. Mae pedwar deg dau y cant o'r ymatebwyr yn berchen yn llwyr ar eu heiddo, a 40% yn y broses o brynu'r eiddo maent yn byw ynddo.

Mae 'Tai cymdeithasol' (sy'n cael eu rhentu oddi wrth awdurdod lleol neu gymdeithas tai) yn cyfrif am 9% o'r

farchnad dai yng Nghymru wledig. Mae hwn yn ffigur isel o gymharu â'r DU yn gyffredinol. Mae arwyddocâd y sector tai cymdeithasol yn amrywio'n ddaearyddol: mae ymatebwyr o Ynys Môn deirgwaith yn debycach o fyw mewn tai cymdeithasol na'r rhai o Fro Morgannwg.



Mae pryder ynghylch y prinder ymddangosiadol o dai addas ac ynghylch prisiau tai sy'n uchel ac yn codi yng Nghymru wledig. Roedd pedwar deg dau y cant o'r ymatebwyr yn ystyried bod 'y mwyafrif o bobl' yn eu hardaloedd yn wynebu problemau o ran fforddio tai. Yng Ngogledd Cymru ac ymysg pobl ifanc nad ydynt yn berchen ar dai y mae'r canfyddiad hwn fwyaf cyffredin.

Nid yw canfyddiadau o ddiffyg tai fforddiadwy o reidrwydd yn cyfateb â'r profiadau a adroddodd yr ymatebwyr. Mae llai nag un o bob pump o aelodau o deuluoedd sy'n dymuno symud yn dweud bod diffyg tai fforddiadwy yn rhwystro symud.

Lles cymunedol ac allgáu cymdeithasol

Mae canlyniadau'r arolwg yn awgrymu lefel gymharol isel o fywyd cymunedol cyfunol yng Nghymru wledig. Nid yw hanner yr ymatebwyr yn cymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau a drefnir gan grwpiau a chymdeithasau lleol. Crefydd sy'n cynnig y canolbwynt lleol cryfaf, gydag 8% o ymatebwyr yn mynd i'r capel neu i'r eglwys yn rheolaidd.

Mewn cyferbyniad, mae canlyniadau'r arolwg yn awgrymu lefel gymharol uchel o ymwneud teuluol mewn gweithgareddau dinesig ehangach. Yn y flwyddyn ddiwethaf (2003-2004), llofnododd 41% o'r ymatebwyr ddeiseb, mynychodd 28% gyfarfod cyhoeddus, cysylltodd 19% â'u cynghorydd lleol a chysylltodd 14% ohonynt â'u AS neu AC.

Mae gweithgareddau gofalu yn rhan bwysig o fywydau llawer o bobl. Yn ystod 2003-2004, gofalodd 44% o'r ymatebwyr am ffrindiau neu gymdogion. Y teuluoedd ag incwm is neu ganolig a oedd fwyaf tebygol o ddarparu'r gofal hwn. Ymgymerodd dros draean o'r ymatebwyr â gwaith gwirfoddol yn y deuddeg mis diwethaf.

Mae profiadau a chanfyddiadau am fywyd cymunedol yn amrywio'n helaeth ymysg trigolion gwledig. Ymddengys bod y mwyafrif yn 'fodlon iawn' â'r 'ysbryd cymunedol' yn eu hardal leol. Ar yr un pryd, nid yw 14% yn teimlo bod ymdeimlad cymunedol cryf yn eu hardal leol. Ymatebwyr o Geredigion, Powys a Sir Benfro sy'n debycach nag eraill o feddwl am eu cymunedau mewn termau positif.



Mae gan amgylchiadau unigol ddylanwad cryf ar ganfyddiadau am fywyd cymunedol a phrofiadau ohono. Ymatebwyr sy'n siarad Cymraeg sydd debycaf o adrodd am brofiadau a chanfyddiadau cadarnhaol o'u cymuned. Ymatebwyr ieuengach a'r rheiny o deuluoedd ag incwm isel sydd fwyaf tebygol o adrodd teimladau o unigedd.

Ceir ymdeimlad cyffredinol bod tlodi'n gyffredin ledled Cymru wledig. Mae deugain y cant o ymatebwyr yn ystyried bob pobl yn byw mewn tlodi yn eu cymuned. Mae'r canfyddiad hwn yn fwyaf cyffredin mewn trefi gwledig.

Mae'r arolwg yn awgrymu bod lleiafrif sylweddol o drigolion gwledig yn profi amddifadedd economaidd. Daw 19% o ymatebwyr o deuluoedd ag incwm gros blynyddol sy'n llai na £10,000. Daw tri ar ddeg y cant o deuluoedd sy'n derbyn cymhorthdal incwm gan y wladwriaeth. Mae incymau blynyddol gros yn amrywio o £20,500 yn Ynys Môn i £28,500 yn Sir Fynwy. Tuedda incymau i fod yn is yn y trefi a'r pentrefi nag allan yn y wlad.

I raddau, mae amddifadedd economaidd yn gysylltiedig â salwch neu anabledd hir dymor. Y rheiny sydd ag afiechydon neu anableddau hir dymor sydd fwyaf tebygol o fyw mewn teuluoedd ag incwm isel. Mae gan draean o'r teuluoedd o leiaf un person ag anabledd neu salwch hir dymor.

Gwasanaethau

Mae gan y mwyafrif o drigolion gwledig ganfyddiad cadarnhaol am ansawdd gwasanaethau gwledig. Mae dros ddwy ran o dair o'r farn bod ysgolion, swyddfeydd post, banciau, siopau bwyd a'r GIG o 'ansawdd dda'. Mae hyn, fodd bynnag, yn gadael lleiafrif arwyddocaol nad ydynt yn fodlon ag ansawdd y gwasanaethau hyn. Mae dros chwarter yn ystyried bod darpariaeth yr heddlu a thrafnidiaeth gyhoeddus o 'ansawdd gwael'.

Mae gan bron i hanner y teuluoedd yng Nghymru wledig rywun sy'n cael anawsterau wrth gael mynediad i wasanaethau allweddol. Incwm yw'r ffactor unigol pwysicaf sy'n dylanwadu ar gael mynediad i wasanaethau. Mae ymatebwyr o deuluoedd ag incwm isel yn llawer tebycach o gael anhawster o ran cyrraedd ysbyty cyffredinol, archfarchnad neu siop fwyd arall nag y mae trigolion mwy cyfoethog. Nid oes

gan dri deg dau y cant o deuluoedd ag incwm gros blynyddol sy'n llai na £10,000 ddefnydd car, o gymharu ag ychydig dros 2% o deuluoedd ag incwm o £21,000 neu fwy.

Addysg a chyflogaeth

Caiff llawer o ardaloedd gwledig eu nodweddu gan boblogaeth â chymwysterau academaidd cymharol isel. Dywed dau ar bymtheg y cant o ymatebwyr nad oes ganddynt unrhyw gymwysterau academaidd. Mae bron i draean heb unrhyw gymwysterau addysgol ôl-16. Mae'r rheiny sy'n 65 oed neu'n hyn chwe gwaith yn debycach na'r rheiny rhwng 16 a 24 oed i fod heb unrhyw gymwysterau academaidd.

Awgryma canfyddiadau'r arolwg fod llawer o drigolion gwledig yn cael anawsterau wrth ddod o hyd i waith. Mae chwarter o'r rhai sy'n economaidd weithgar wedi ei chael yn anodd dod o hyd i swydd 'addas' yn eu hardal leol. Mae'r anawsterau i'w gweld amlycaf ymysg y rheiny sydd rhwng 16 a 24 oed a'r rhai sy'n byw allan yng nghefn gwlad.

Caiff cyflogaeth yng Nghymru wledig ei nodweddu gan gyfran uchel o waith rhan amser (19%), hunangyflogaeth (18%) a dal mwy nag un swydd (11%). Mae merched pedair gwaith yn debycach na dynion o fod yn gweithio'n rhan amser. Yng Ngheredigion, Powys a Sir Benfro mae'r lefelau hunangyflogaeth ar eu huchaf, ac yng Nghonwy a Sir Gaerfyrddin y maent isaf.

Cyflogir pedwar deg a phedwar y cant o'r rheiny sydd yn gweithio mewn gweinyddiaeth gyhoeddus, addysg neu iechyd a gwaith cymdeithasol. Mae'r sectorau hyn yr un mor arwyddocaol ledled Cymru wledig. Mae amaethyddiaeth, hela a choedwigaeth yn cyfrif am 6% yn unig o gyflogaeth mewn ardaloedd gwledig, gan adlewyrchu dirywiad cyfraniad ffermio at economi Cymru wledig.

Agweddau tuag at fyw yng Nghymru wledig

Mae agweddau at fyw yng Nghymru wledig yn amrywio'n helaeth, gan adlewyrchu amrywiaeth Cymru wledig a'i thrigolion. Mae dros draean o'r ymatebwyr yn mwynhau 'natur heddychlon a thawel' yr ardal maent yn byw ynddi. Cyfeiria dros chwarter at nodweddion cymdeithasol a diwylliannol cadarnhaol eu cymdogaeth. Mae ugain y cant yn mwynhau byw yng Nghymru wledig oherwydd 'cyfeillgarwch y bobl / cymdogion clên'. Mae pobl hyn yn fwy tueddol o osod pwyslais ar gyfeillgarwch y bobl ac ysbryd cymunedol cadarnhaol eu hardal.

Er bod llawer o ymatebwyr yn hapus yn byw yng Nghymru wledig, cyfeiria chwe deg y cant at faterion sydd wedi achosi anghydfod o fewn eu cymdogaeth. Mae'r mwyafrif o'r materion hyn yn gysylltiedig â chynllunio a datblygu. Ystyrir mai datblygu tai newydd sy'n peri'r pryder mwyaf, cafodd hyn ei enwi gan 12% o'r ymatebwyr. Siaradwyr Cymraeg a'r rhai sy'n byw mewn teuluoedd sy'n ennill dros £31,000 y flwyddyn sydd debycach o ystyried bod tai newydd yn broblem.

Nid yw dwy ran o dair o'r ymatebwyr yn hoff o o leiaf un agwedd ar fyw yng Nghymru wledig. Mae pedwar deg a phedwar y cant o'r cas bethau yn gysylltiedig ag ansawdd gwael gwasanaethau, economi anffafriol a chostau byw uchel. Mae'r anfodlonrwydd i'w weld amlycaf yn siroedd mwy anghysbell Ceredigion, Powys, Sir Benfro a Gwynedd.

Mae'r adroddiad hwn yn un o gyfres o adroddiadau ar Gymru wledig a gynhyrchir gan Arsyllfa Wledig Cymru.

Mae Arsyllfa Wledig Cymru yn ymgymryd ag ymchwil a dadansoddi annibynnol ar Gymru wledig. Caiff ei hariannu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i ategu llunio polisïau sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Mae gweithgareddau'r Arsyllfa'n canolbwyntio ar bedwar prif faes:

- Casglu a dadansoddi data cymdeithasol ac economaidd ar Gymru wledig
- Cyflwyno'r data hyn o fewn System Wybodaeth Ddaearyddol (GIS)
- Cynhyrchu cyfres o adroddiadau sy'n disgrifio ac yn gwerthuso
- Monitro ac adolygu ymchwil a pholisi arall sy'n perthyn i Gymru wledig

Mae gwefan sy'n rhoi gwybodaeth bellach am Arsyllfa Wledig Cymru, gan gynnwys ei gweithgareddau ac allbwn, i'w gweld yn www.walesruralobservatory.org.uk

Am wybodaeth bellach am yr ymchwil hwn, cysylltwch â Graham Gardner neu Catherine Walkley ar 01970 622639, e-bost: walesruralobservatory@aber.ac.uk, neu Sefydliad Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear, Prifysgol Cymru, Aberystwyth, SY23 3DB

Medi 2004